

Dyddiadau Ffenestri Datgan Diddordeb Chwefror 2023

Cynllun	Crynodeb	Dyddiadau Ffenestri
Datblygu Garddwriaeth	<p>Mae'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth yn gynllun grant Cyfalaf sydd ar gael i gynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol ledled Cymru. Nod y cynllun yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynorthwyo cynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol i ddatblygu eu busnesau drwy fuddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg newydd sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r busnes garddwriaethol. • Galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch. • Galluogi cynhyrchwyr garddwriaethol i fynd i farchnadoedd newydd. Cynyddu cyflogaeth leol a chefnogi'r economi wledig fel rhan o'r adferiad gwyrdd o Covid-19. <p>Mae'r cynllun yn ddewisol. Byddai swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a bydd pob swm yn isafswm angenrheidiol i ganiatáu i'r buddsoddiadau fynd rhagddynt.</p> <p>Mwy o wybodaeth: https://llyw.cymru/horcynllun-datblygu-garddwriaeth</p>	5ed Rhagfyr 2022 – 10fed Mawrth 2023
Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir	<p>Ar gyfer plannu ardaloedd bach o goed dan 2 hectar. Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i'w hannog i blannu ardaloedd bach o goed ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu sydd o werth amgylcheddol isel yng Nghymru, felly ni fydd angen cynllun creu coetir wedi'i ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y ceisiadau hyn.</p> <p>Nid yw'r cynllun yn golygu colli taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynigir taliadau cynnal a chadw a thaliadau premiwm am 12 mlynedd, a chyfradd ffensio uwch o £5.56/m.</p> <p>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir</p>	13eg Chwefror 2023 – 24ain Mawrth 2023 Bydd ffenestri pellach yn agor ar gyfer ceisiadau ar 22ain Mai ac 21ain Awst 2023
Cynllun Cynllunio Creu Coetir	<p>Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).</p> <p>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir</p>	Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar y gyllideb)

<p>Grant Creu Coetir</p>	<p>Ar gyfer cynlluniau mwy (fodd bynnag, dim ond 0.25ha yw'r ardal leiaf, sy'n cynnwys parseli 0.1ha man lleiaf) a'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.</p> <p>Mae angen Plan Creu Coetir ymlaen llaw. Mae cyllid ar gael drwy'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.</p> <p>Nid yw'r cynllun yn golygu colli taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynigir taliadau cynnal a chadw a thaliadau premiwm am 12 mlynedd, a chyfradd ffensio uwch o £5.56/m.</p> <p>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir</p>	<p>13eg Chwefror 2023 – 24ain Mawrth 2023</p> <p>(Er mwyn gallu ymgeisio, bydd angen ichi gael cadarnhad o blun wedi'i ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn 10fed Mawrth 2023).</p> <p>Bydd ffenestri pellach yn agor ar gyfer ceisiadau ar 22ain Mai ac 21ain Awst 2023</p>
<p>Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth</p>	<p>Mae'r cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth wedi'i gynllunio i helpu newydd-ddyfodiaid i'r sector garddwriaeth yng Nghymru drwy annog sefydlu busnesau garddwriaeth masnachol newydd, naill ai fel elfen arallgyfeirio o fewn busnes amaethyddol sy'n bodoli eisoes, neu fel menter newydd annibynnol. Drwy wneud hynny, bydd yn helpu i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o Gymru fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal. Bydd y grant yn annog defnydd o dechnoleg newydd a datblygol, gan ddarparu cyfleoedd i arallgyfeirio er mwyn creu ffrwd incwm arall ar gyfer busnesau fferm presennol yng Nghymru, sefydlu mentrau newydd gwledig, a chreu cyfleoedd cyflogaeth.</p> <p>Mae'r Grant Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth ar gael i unigolion neu fusnesau sydd am ymuno â'r sector garddwriaethol masnachol. Dyma nodau'r cynllun:</p> <ul style="list-style-type: none"> • annog sefydlu busnesau garddwriaethol masnachol newydd drwy gynnig cyllid sbarduno iddynt ar ffurf grant • lleihau ychydig ar y risg ariannol o fuddsoddi mewn menter newydd. • denu mwy o unigolion i ymuno â'r sector • annog y defnydd o dechnoleg newydd a thechnoleg sy'n datblygu mewn busnesau garddwriaethol • creu ffrwd incwm mwy amrywiol ar gyfer busnesau fferm yng Nghymru • sefydlu busnesau gwledig newydd, fydd yn creu gwaith a chyfleoedd i dyfu ac yn cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy • ymateb i Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru ac annog cyflenwi bwyd lleol yng Nghymru <p>Bydd angen i ymgeiswyr, sy'n cael eu dewis ar ôl Datgan Diddordeb, brofi bod eu prosiectau'n gynigion ymarferol sydd â'r potensial i ddatblygu'n fusnesau cynaliadwy.</p> <p>Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-dechrau-busnes-garddwriaeth</p>	<p>Yn agor 11eg Ebrill 2023 – 20fed Mai 2023</p>

<p>Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ar gyfer buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol mewn gweithgareddau prosesu sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru a'i gadwyni cyflenwi.</p> <p>Rydych chi'n gymwys i ymgeisio:</p> <p>Os ydych chi'n fusnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW sy'n ymgymryd â phrosesau cynradd a/neu eilaidd mewn cynnyrch amaethyddol ac anamaethyddol, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus • unig fasnachwyr a phartneriaethau • busnesau fferm sy'n prosesu cynnyrch amaethyddol • busnesau newydd, gan gynnwys hen fusnesau sy'n dechrau arallgyfeirio a busnesau sydd newydd eu sefydlu • cwmnïau nid-er-elw, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cymunedol, cyhoeddus a gwirfoddol <p>Costau Cymwys</p> <p>Gellir defnyddio'r cymorth o dan y cynllun hwn ar gyfer asedau tiriathol megis prynu a/neu ddatblygu tir, adeiladau, peiriannau, a chyfarpar, yn ogystal ag asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent, a thrwyddedau a ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol ac ymgynghori, yn amodol ar gyfyngiadau:</p> <p>Y grant mwyaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £5,000,000</p> <p>Y grant lleiaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £20,000</p> <p>Mwy o wybodaeth: https://llyw.cymru/cynllun-sbarduno-busnesau-bwyd-canllawiau.html</p>	<p>Wedi agor ar 17eg Tachwedd 2022 a bob 4 wythnos detholir buddiolwyr llwyddiannus i'w gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y ffenestr yn aros ar agor nes bod y gyllideb a ddyrannwyd wedi'i defnyddio.</p>
<p>Grantiau Bach - Effeithlonrwydd</p>	<p>Cynllun i gefnogi buddsoddiad mewn offer a thechnoleg newydd i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol busnesau fferm.</p> <p>Y grant lleiaf a roddir yw £1,000 a'r mwyaf yw £12,000.</p> <p>Mae uchafswm o 40% o gyfraniad ar gael yn erbyn costau go iawn a anfonebwyd.</p> <p>Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-effeithlonrwydd</p>	<p>16eg Ionawr 2023 – 24ain Chwefror 2023</p>
<p>Grantiau Bach – Amgylchedd (Creu Gwrychoedd)</p>	<p>Bydd rownd hon y cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd yn canolbwyntio ar Greu Gwrychoedd.</p> <p>Mae'r cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd yn gynllun ar wahân i gynlluniau eraill ac yn cynnig uchafswm o £7,500 o gyllid fesul ffenest ar gyfer cynnal Prosiectau Gwaith Cyfalaf</p> <p>Bydd rheolwyr tir a busnesau ffermio yn cael eu dewis ar gyfer Grantiau Bach - Amgylchedd, ar ôl Datgan Diddordeb wrth Lywodraeth Cymru. Caiff y Datganiad o Ddiddordeb ei sgorio yn ôl ei allu i gyfrannu at gyflawni amcanion thema Grantiau Bach – Amgylchedd. Y rheini fydd yn gallu cyfrannu fwyaf at gyflawni amcanion y thema fydd yn cael y sgôr uchaf.</p> <p>Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd</p>	<p>9fed Ionawr 2023 – 3ydd Mawrth 2023</p>

